TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# BTEC Diploma Cyntaf mewn Busnes Lefel 2



**Yn gryno**

Byddwch yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r sector busnes i'ch galluogi i gael sgiliau technegol a chyflogadwyedd a chael cymhwyster galwedigaethol sy'n cael ei gydnabod yn genedlaethol.

**Dyma'r cwrs i chi os...**

... Oes gennych ddiddordeb dilyn gyrfa mewn busnes

... Ydych eisiau gwybod mwy am y byd busnes a marchnata

... Hoffech fynd ymlaen i astudio Diploma Estynedig Lefel 3 mewn Busnes.

**Beth fyddaf yn ei wneud?**

Byddwch yn canolbwyntio ar y sgiliau y mae cyflogwyr yn edrych amdanynt fel cyfathrebu, rhifedd, sgiliau cyfathrebu, dadansoddi, dehongli, cymhwyso a gwerthuso gwybodaeth. Mae'r

unedau yn cynnwys:

Mentergarwch yn y byd busnes
Hyrwyddo brand
Y gyfraith a hawliau defnyddwyr

**Beth a ddisgwylir ohonof i?**

Rhaid cael o leiaf 4 TGAU gradd D neu uwch sy'n cynnwys un ai Mathemateg/Mathemateg Rhifedd neu Saesneg/Cymraeg Iaith Gyntaf; NEU gymhwyster Diploma Lefel 1 priodol mewn maes galwedigaethol perthnasol sy'n cynnwys un ai gradd TGAU Mathemateg/Mathemateg Rhifedd neu Saesneg/Cymraeg Iaith Gyntaf.

Bydd angen i chi ymrwymo'n llawn i fod yn bresennol, parchu eraill, dangos brwdfrydedd am y pwnc a chael hunan-gymhelliant. Cewch eich asesu'n barhaus drwy waith cwrs a fydd yn cynnwys gweithgareddau ysgrifenedig ac ymarferol a bydd yna arholiadau. Mae yna ddisgwyliad i chi barhau â'ch astudiaethau a'ch gwaith cwrs yn eich amser eich hun.

Pa gymwysterau y byddwch yn eu cael:

Lefel 2 Busnes
Gweithgareddau Sgiliau

Mathemateg a Saesneg
Cymwysterau perthnasol eraill i fwyhau eich set o sgiliau

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Diploma Estynedig Lefel 3 mewn Busnes neu raglen Lefel 3 perthnasol arall.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Bydd disgwyl i chi wneud cyfraniad wedi ei gymorthdalu tuag at dripiau a gweithgareddau busnes.